



Polisi Plant Mewn Gofal



Ysgol Y Berllan Deg

Polisi Plant Mewn Gofal (CLA)

'We owe it to all young people to give them the best chance to succeed in life. This is especially true of children that, often for no fault of their own, have found themselves placed in the most challenging of circumstances.'

Huw Lewis, *Gweinidog dros Addysg a Sgiliau (Chwefror 2015)*.

Amcanion:

- codi dyheadau addysgol plant sy'n derbyn gofal, ac wedi eu mabwysiadu, a'r rhai sy'n gofalu amdanynt;
- atgyfnerthu atebolrwydd ac arweinyddiaeth ar draws ein clwstwr;
- sicrhau bod addysg yn parhau i fod yn flaenoriaeth hyd yn oed yn ystod cyfnodau anffodus ym mywyd plentyn;
- gwneud defnydd gwell o ddata i gynorthwyo ymarfer, llunio a monitro polisiau neu ganlyniadau addysgol;
- hyrwyddo a rhannu arferion da.

Diffiniad o CLA

Cyflwynwyd y term "mewn gofal" gan Ddeddf Plant 1989. Mae hyn yn cyfeirio at blentyn sydd naill ai'n cael ei letya (lle mae'r awdurdod lleol yn darparu ar gyfer y plentyn ar sail gytûn gyda'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant) neu sy'n destun gofal (lle mae gorchymyn llys yn rhoi cyfrifoldeb rhiant ar y cyd i'r awdurdod lleol er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plentyn). Gallai plant yn y ddau achos fod yn byw gyda gofalwyr maeth, mewn uned breswyl, mewn ysgol breswyl, gyda pherthnasau, neu hyd yn oed gyda rhieni yn rhannol neu'n llawn amser.

Yn ogystal, mae'r term "mewn gofal", sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth yn y gwasanaethau cymdeithasol, yn gyfystyr â'r term "mewn gofal cyhoeddus", a fabwysiadwyd gan y DfES yn eu cyhoeddiad, "Addysg Pobl Ifanc mewn Gofal Cyhoeddus".

Ystyriwn hefyd y canlynol fel plant CLA:

- plant sydd wedi eu mabwysiadu
- plant oedd yn derbyn gofal yn flaenorol
- trefniadau arbennig
- plant sy'n destun i brosesau diogelu

Ymrwymiad Clwstwr Bro Edern:

Mae helpu disgybl CLA i lwyddo a darparu cyfleoedd sy'n eu galluogi i gael gwell dyfodol yn flaenoriaeth allweddol yn ein clwstr. Mae hyn wedi'i gynllunio ar gyfer:

- bod â disgwyliadau uchel ar gyfer y plentyn a sicrhau mynediad cyfartal a chyfleoedd i gymryd rhan lawn mewn addysg gytbwys ac eang â gweithgareddau allgyrsiol a'r cyfle i fwynhau'r profiad ysgol yn llawn yn unol ag egwyddorion rhianta corfforaethol;
- blaenoriaethu cofnodi a monitro cyflawniad academiaidd y disgybl CLA yn ychwanegol at eu hiechyd a'u lles;
- sicrhau cymaint o sefydlogrwydd a pharhad ag sy'n bosibl o ran grwpiau staffio a chyfeillgarwch;
- blaenoriaethu gostyngiadau mewn gwaharddiadau a hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb;
- hyrwyddo cynhwysiant trwy herio agweddau a stereoteipiau a thrwy hyrwyddo hinsawdd cynhwysol;
- hyrwyddo cyfathrebu da rhwng pawb sy'n ymwneud â bywyd y plentyn a gwrando ar y plentyn;
- cynnal a pharchu cyfrinachedd y plentyn lle bynnag y bo'n bosibl a sicrhau sensitifrwydd wrth gyfeirio at statws gofal plentyn a dangos ystyriaeth i gefndir plant sy'n derbyn gofal, yn arbennig o amgylch pwysau gwaith sydd ar deulu;
- sicrhau bod staff yn ymwybodol ac yn sensitif i anawsterau ac anfanteision addysgol disgybl CLA;
- sicrhau bod Athro Dynodedig priodol wedi ei benodi ac wedi'i hyfforddi'n briodol;
- llunio Cynllun Addysg Personol (CAP (PEP)) rhwng yr Ysgol, y plentyn a gweithiwr cymdeithasol y plentyn, a fydd yn nodi anghenion unigol y plentyn ochr yn ochr â'r gefnogaeth a'r adnoddau y maent eu hangen;
- adolygu holl bolisiâu'r ysgol yn rheolaidd gan ystyried cyngor Cynhwysiant Cymdeithasol yr AALI, Deddfwriaeth Anghenion Addysgol Arbennig, Llywodraeth Cymru a chanllawiau'r Adran Addysg a Sgiliau / Adran Iechyd ar Addysg Plant mewn Gofal Cyhoeddus;
- sicrhau y dilynir protocol clir ar gyfer rhannu gwybodaeth o fewn yr ysgolion a chyda asiantaethau allanol ac wrth drosgwlyddo i'r ysgol uwchradd;
- ceisio cefnogi pob plentyn sy'n derbyn gofal a addysgir yn yr ysgol hon er mwyn eu cefnogi i gyflawni eu potensial academiaidd.

Rolau a Chyfrifoldebau

Bydd Cyrff Llywodraethol yn sicrhau:

- bod gan y clwstwr bolisi cydlynol ar gyfer CLA;
- yr adolygir polisiau a gweithdrefnau'r ysgol yn y clwstwr gan ystyried canllawiau cynhwysiant cymdeithasol a chanllawiau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig;
- Bod yr athrawon dynodedig wedi derbyn hyfforddiant priodol;
- Bod athrawon yn ymwybodol o'u rol nhw;
- Bod gan ddisgyblion CLA fynediad cyfartal i bob maes o'r cwricwlwm;

Bydd Penaethiaid yr ysgolion yn:

- penodi'r athro dynodedig;
- sicrhau bod yr athro dynodedig wedi derbyn hyfforddiant priodol;
- goruchwylio datblygiad y Polisi ar ddisgyblion CLA;
- gyfrifol am bob system i gefnogi CLA;
- adrodd i'r Corff Llywodraethol yn flynyddol ar y canlynol:
 - o nifer y CLA yn yr Ysgol;
 - o dadansoddiad o sgoriau prawf fel grŵp ar wahân*, o'i gymharu â disgyblion eraill;
 - o presenoldeb disgyblion o'i gymharu â disgyblion eraill;
 - o lefel gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol o'i gymharu â disgyblion eraill;
 - o nifer y cwynion.

Yr Athro Dynodedig

Yn Ysgol Y Berllan Deg y pennaeth yw'r athro dynodedig. Bydd yr athro dynodedig yn helpu i sefydlu a chynnal yr ethos sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal yr ysgol trwy:

- wasanaethu fel y cyswllt ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol;
- gynnal a pharchu cyfrinachedd yr holl blant sy'n derbyn gofal a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ar sail 'angen gwybod' yn llym;
- sicrhau bod yr holl staff, trwy hyfforddiant priodol, yn ymwybodol o'r anawsterau a'r anfanteision addysgol a wynebir gan blant sy'n derbyn gofal ac yn deall yr angen am systemau cadarnhaol i'w cefnogi, gan gynnal disgwyliadau uchel am eu cyflawniadau addysgol;

- gweithredu fel eiriolwr ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn caniatáu mynediad cyfartal iddynt i gyfleoedd addysgol a chefnogaeth gyda phenderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar gyfleoedd bywyd yn y dyfodol.

Bydd yr athro dynodedig yn sefydlu systemau i fonitro a chofnodi cynnydd pob plentyn sy'n derbyn gofal a bydd yn:

- cadw trosolwg a chydlynu ar gyfer casglu a chynnal yr holl wybodaeth ynglŷn â disgyblion CLA;
- cadw cofnodion ynglŷn â disgyblion CLA, gan gynnwys statws cyfreithiol a gwybodaeth ynghylch pwy y dylid cysylltu â hwy ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r plentyn;
- sefydlu system ar gyfer cysylltu a throsglwyddo cofnodion addysgol i ysgolion newydd i hwyluso trosglwyddo llyfn a chyflym;
- monitro cynnydd addysgol pob disgybl CLA ac ymyrryd, mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill pan fo hynny'n briodol, os oes tystiolaeth o dangyflawniad, absenoldeb o'r ysgol neu driwantaeth fewnol, neu bryder tebyg arall.

Bydd yr athro dynodedig yn hwyluso cyfathrebu effeithiol trwy:

- meithrin perthnasoedd cartref-ysgol cadarnhaol rhwng rhieni / gofalwyr gyda chyfleoedd rheolaidd ar gyfer deialog;
- bod yn flaengar a chymryd rhan wrth osod nodau ar gyfer CAP (PEP) y plentyn;
- chwarae rhan weithredol mewn cynllunio gofal trwy sicrhau bod presenoldeb yr aelod staff mwyaf priodol a / neu adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu darparu i bob adolygiad statudol o CLA;
- helpu i gydlynu cyfarfodydd addysg a CAP (PEP);
- gwasanaethu fel y cyswllt a enwir ar gyfer cydweithwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg;
- sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng yr holl rhanddeiliaid perthnasol;
- gwahodd y gweithiwr cymdeithasol cyfrifol i bob cyfarfod a chysylltu â'r gweithiwr cymdeithasol hwn ynglŷn ag adolygu CAP (PEP) y plentyn.

Bydd yr athro dynodedig yn monitro cyflawniad pob plentyn ac yn sicrhau bod ganddynt y gefnogaeth sydd ei hangen yn yr ysgol trwy:

- cyfarfod gyda'r disgyblion CLA i drafod pwy sydd angen gwybod eu bod yn derbyn gofal ac i sicrhau bod y person ifanc yn cael ei hysbysu o'u rôl;

- sicrhau bod gan bob plentyn aelod o staff a enwir a all roi cyngor a / neu gymorth ymarferol ar faterion academaidd neu faterion bugeiliol;
- cydweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn CAP (PEP);
- gofyn am gefnogaeth gan yr ALNCo a / neu asiantaethau allanol;
- gweithio'n agos gyda'r ALNCo i sicrhau bod pob disgybl CLA ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hasesu ac yn derbyn adnoddau priodol i gefnogi eu dysgu;
- weithredu strategaeth ar gyfer trosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol neu drosglwyddo i ysgol newydd;
- sicrhau bod pob disgybl CLA yn cael ei wneud i deimlo'n rhan o amgylchedd yr ysgol.

Cynlluniau Addysg Personol

Bydd gan bob plentyn CAP (PEP). Bydd eu gweithiwr cymdeithasol yn arwain y gwaith wrth greu ac adolygu'r ddogfen. Fodd bynnag, mae rôl yr ysgol yn y cynllun hwn yn hanfodol a bydd o leiaf un aelod o staff sy'n adnabod y plentyn yn dda yn mynychu'r cyfarfod i greu ac adolygu'r CAP (PEP). Bydd staff eraill yn cyfrannu yn ysgrifenedig fel y bo'n briodol.

Bydd y CAP (PEP) yn ystyried:

- cryfderau'r plentyn a'r meysydd i'w datblygu;
- eu diddordebau, y tu fewn a thu allan i'r Ysgol;
- anghenion datblygiadol, addysgol a bugeiliol y disgybl ochr yn ochr â chynlluniau yn y dyfodol a sut y gellir cefnogi'r rhain;
- materion sy'n codi ym mywyd y plentyn;
- bydd hefyd yn nodi targedau a fydd yn cael eu hadolygu yn ystod y cyfarfod CAP (PEP) nesaf.

Trefniadau Derbyn a Sefydlu

Mae plant CLA yn flaenoriaeth i'r AALI wrth ystyried eu derbyn i ysgol a bydd yr ysgol yn dilyn meini prawf swyddogol yr AALI.

Ar ôl derbyn mynediad i'r ysgol, bydd y plentyn yn cwrdd â'r athro dynodedig. Byddant yn trafod unrhyw faterion perthnasol, academaidd neu fugeiliol, ac yn sicrhau bod y plentyn yn ymgartrefu yn yr ysgol. Gofynnir am gofnodion gan ysgol flaenrol y plentyn. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, cynhelir cyfarfod gyda'r gofawr / rhiant, gweithiwr cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill a'r plentyn fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth i hysbysu CAP (PEP) newydd y plentyn a sicrhau bod systemau cyfathrebu yn cael eu sefydlu'n gynnar.

Yn y cyfarfod CAP (PEP) cyntaf, bydd y gweithiwr cymdeithasol yn hysbysu'r ysgol ynghylch pwy sy'n gofyn am adroddiadau ysgol a dogfennau swyddogol yr ysgol, a phwy all roi caniatâd ar gyfer teithiau ysgol neu weithgareddau o'r fath. Yn y cyfarfod hwn, trafodir a chytunir ar unrhyw fodd o gyfathrebu i gynorthwyo cyfnewid gwybodaeth hylaw rhwng cyfarfodydd statudol i roi manylion unrhyw newidiadau arwyddocaol sydyn yn amgylchiadau plentyn.

Teithiau Ysgol a Gweithgareddau Arbennig

Bydd yr ysgol yn talu sylw i'r posibilrwydd y bydd rhywfaint o oedi wrth dderbyn caniatâd rhieni ar gyfer teithiau a gweithgareddau ysgol, bydd yr ysgol yn anelu i sicrhau bod disgyblion CLA yn mwynhau'r un cyfleoedd allgyrsiol â phlant eraill trwy neilltuo lleoliadau iddynt ar deithiau neu ar weithgareddau.

Cwynion

Os yw person ifanc, rhiant neu weithiwr cymdeithasol yn dymuno cwyno am y ddarpariaeth neu'r polisi, dylent ei godi yn yr achos cyntaf gyda'r athro dynodedig a fydd yn ceisio datrys y sefyllfa. Os nad ddatrysir y broblem, yna gellir dilyn gweithdrefnau cwyno'r ysgol.